Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 478 HYDREF 2025 | AM DDIM

## YSGOLORIAETH CYMDEITHAS DDRAMA GYMRAEG ABERTAWE 2025 -GERAINT DAVIES

A'r enillydd yw.........

Gwydion ap Hedd o Gaerdydd. Fe sydd wedi ennill Ysgoloriaeth Cymdeithas Drama Gymraeg Abertawe 2025.

Mae Gwydion eisoes wedi magu profiad eang mewn sawl agwedd o fyd y ddrama - actio, cyfarwyddo, sgwennu a hyd yn oed sgriptio ar gyfer gemau rhyngweithiol, heb sôn am gerddoriaeth 'soul' Cymraeg.

Tipyn o CV'n barod felly. Ond y cam nesa' yw dilyn cwrs dwy flynedd MFA (Meistr Celfyddyd Gain) Actio Proffesiynol yn ysgol ddrama nodedig LAMDA. Mae'n bleser gan y Gymdeithas ei gefnogi'n ariannol wrth gynnig ysgoloriaeth gwerth £2500.



## CYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS GYRFA DDIDDOROL MAIR THOMAS -GARETH RICHARDS

Mae pawb yn 'napod Mair .... ac roedd noson y Gymdeithas, ddiwedd Medi, yn gyfle i gael ei holl hanes. Mewn cyfweliad cartrefol, gyda David Gwyn John yn holi, cawsom wybod am ei magwraeth yn Nhrebannws, ei haddysg ym Mhontardawe, lle chafodd gyfle i berfformio yn Eisteddfodau cynnar yr Urdd. Bu criw o ferched, yn cynnwys Mair a Siân Phillips, yn cystadlu yn y Gân Actol, "y Medelwyr" o dan arweiniad Agnes Thomas, yr athrawes bioleg. Bu'r daith i Gorwen yr haf hwnnw, yn 1946, yn gofiadwy iawn ac mae'n ddyledus i'r athrawon, yn ei mysg yr enwog Eic Davies, a ddylanwadodd ar gymaint o ieuenctid y fro yn y cyfnod hwnnw.

Dechreuodd ei gyrfa gyflogedig yng ngwaith 'steel' Gilbertons a Richard Thomas a Baldwin yn ddiweddarach, ac yna 'Histon Overalls' ym Mynachlog Nedd. Mwynhaodd y gwmnïaeth braf, llawn sbort gyda'i chyd weithwyr yn fawr iawn. Un a alwai yn y Swyddfa yn y gwaith 'steel' ym Mhontardawe oedd Abiah Roderick, y bardd o Glydach. I gofio amdano darllenodd Nest Davies, yr Alltwen, y gerdd 'Tecel' yn nhafodiaith hyfryd y cwm.

Ni fu bywyd yn hawdd i Mair. Collodd ei gŵr Trevor yn ddyn ifanc gan adael dau o blant, Gareth a Judith, disgyblion gyda'r cyntaf yn Lon-las. Ail briododd â Rhys Thomas yn 1974 a magu dau o fechgyn Andrew a Stephen yn ychwanegol.

Bu Mair yn deyrngar i nifer o gapeli'r Cwm: Tabernacl Pontardawe, Carmel a Tabernacl Treforys ynghyd â Merched y Wawr a Chymdeithas Gymraeg Treforys a'r Cylch. Mwynhaodd actio, ers ei dyddiau ysgol, a bu'n perfformio ar lwyfan y Gwyn Hall, Castell-nedd. Mae nifer ohonom yn ei chofio, yn Set Fawr y Tabernacl, yn serennu yn nrama 'Teg Oleuni' - hanes Griffith John, y cenhadwr.

Mae gan Mair hiwmor iach a braf oedd cael cyd-chwerthin â hi wrth iddi ddwyn i gof ei bywyd llawn a hir.

Diolch i David Gwyn John am yr holi, a Matthew Jenkins am ei waith technegol yn dangos lluniau'r gorffennol o Mair ynghyd â'r cyfweliad arbennig rhwng Eurig Davies a Siân Phillips, yr actores, am ei dyddiau cynnar ar yr Alltwen. Bu'n noson i'w chofio.





Llun y ddawns: Mair a'i chyd-ddisgyblion yn perfformio'r gân actol "Y Medelwyr" yn Eisteddfod yr Urdd, Corwen, 1946.

## CLWB SGWRSIO CYMRAEG I BOBL IFANC ABERTAWE -ANEST ROBERTS

Mae Jonathan Davies, sy'n wreiddiol o Gasllwchwr ger Abertawe, yn diwtor Dysgu Cymraeg. Dysgodd Jonathan ychydig o Gymraeg yn yr ysgol, ond ail-gydiodd yn yr iaith yn 2020, yn ystod y cyfnod clo.

Erbyn 2022, roedd Jonathan yn dysgu ar Lefel Uwch ac yn Hydref 2022, dechreuodd weithio fel tiwtor Dysgu Cymraeg gyda Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe, sy'n cael ei drefnu gan Brifysgol Abertawe ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Yn ystod y cyfnod yma, roedd Jonathan yn byw yn Llundain ac yn dysgu ei ddosbarthiadau ar-lein. Ond, symudodd yn ôl i Abertawe i fyw ym mis Gorffennaf 2024.

Yn ogystal â gweithio fel tiwtor Dysgu Cymraeg, mae Jonathan yn astudio PhD llawn amser ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'n gweithio ar brosiect sy'n edrych ar addysg Gymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn ne Cymru.

Eleni, mae Jonathan wedi cychwyn clwb sgwrsio Dysgu Cymraeg i bobl ifanc ardal Abertawe.

Dewch i ni glywed mwy o'i hanes.

**Beth ydy'r peth gorau am ddysgu Cymraeg i bobol ifanc?**

Y pleser mwyaf o addysgu pobl ifanc yw gweld eu hagwedd at y Gymraeg yn newid.

Mae llawer ohonyn nhw'n ymuno â'r cwrs yn credu nad ydyn nhw'n gallu dysgu Cymraeg ar ôl methu â gwneud hynny yn yr ysgol. Ar ôl cwpl o wythnosau, maen nhw'n credu y gallan nhw ddysgu Cymraeg ac yn dweud faint maen nhw'n mwynhau, a pha mor gyflym, maen nhw'n dysgu!

Dw i hefyd yn mwynhau cynnwys diwylliant poblogaidd yn fy ngwersi i'w gwneud yn hwyl i'r dysgwyr, ac i fi!

**Pam cychwyn y clwb sgwrsio ar gyfer pobl ifanc?**

Dechreuais i grŵp newydd i bobl ifanc ym mis Tachwedd 2024 gan eu bod nhw eisiau mwy o gyfleoedd i ymarfer y Gymraeg. Dywedon nhw fod llawer o'r gweithgareddau cefnogi dysgwyr yn dueddol o ddigwydd yn ystod y dydd tra bod nhw yn y brifysgol neu'n gweithio.

Hefyd, dywedon nhw eu bod nhw eisiau gweithgaredd sy'n digwydd gyda'r nos neu ar y penwythnos, lle roedd cyfle iddynt siarad Cymraeg gyda phobl yn yr un oedran â nhw.

Felly, penderfynais i y dylwn i ddechrau grŵp ar eu cyfer er mwyn rhoi cyfle iddynt ymarfer eu Cymraeg!

**Beth yw dy obeithion i'r dyfodol ar gyfer y clwb?**

Dyn ni'n agosáu at ddiwedd cyfnod arbrofol y grŵp ond dw i'n gobeithio parhau gyda'r sesiynau sgwrsio unwaith y mis er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw ymarfer y Gymraeg yn gyson.

Dw i'n gobeithio gallu tyfu'r grŵp i greu cymuned o ddysgwyr ifanc ac wedyn bydden ni'n gallu cwrdd yn amlach gan gynnal nosweithiau a gweithgareddau lle maen nhw'n gallu ymarfer y Gymraeg wrth wneud pethau eraill megis taith sinema, noson golff gwirion, mynd i gigs Gymraeg ac yn y blaen.

**Beth yw'r peth gorau am fod yn diwtor?**

Mae bod yn diwtor Dysgu Cymraeg yn hwyl ac yn heriol, gan fy helpu i ddatblygu fy Nghymraeg fy hun. Mae'n cynnig cyfle i rannu'r iaith â phobl eraill a'u harwain ar eu taith ddysgu. Mae'r profiad yn ysbrydoledig ac yn werthfawr bob cam o'r ffordd.



## CYFLWYNO DATGANIAD HEDDWCH -DAFYDD WILLIAMS

Ceir galwad am gadoediad yng Ngasa a rhyddid i Balesteina mewn datganiad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar ddiweddglo gorymdaith dros heddwch o Abertawe i Gaerdydd.

Bu tyrfa sylwedfol yn croesawu'r cerddwyr ar risiau Senedd Cymru ar ôl taith gerdded a barodd ddau ddiwrnod.

Arwyddwyd y datganiad gan ymgeiswyr Seneddol Plaid Cymru yn Abertawe.




Llun: Dr Gwyn Williams, ymgeisydd Seneddol Plaid Cymru yn Abertawe, yn annerch y dorf y tu fas i Senedd Cymru



## DIWRNOD AGORED TŶ'R MAER

**-HENI GRUFFUDD**

Y Plasty yw enw Tŷ'r Maer, ers i Abertawe ei brynu yn 1922, ond Brooklands oedd ei enw gwreiddiol. Evan Matthew Richards, dyn busnes o Abertawe, oedd y perchennog gwreiddiol. Cynlluniwyd y tŷ gan ei frawd William Richards, a oedd hefyd yn gyfrifol am ddylunio Neuadd Albert, a thy Hendrefoelan.

Roedd Evan Matthew Richards yn aelod o Gyngor y dref am yn agos at ugain mlynedd a bu'n Faer Abertawe ddwywaith.

Yn chwarter olaf y ganrif prynwyd y ty gan James Jones, oedd yn berchen ar gwmni bwydydd a the a nwyddau yn Goat Street, ac roedd ganddo hefyd ddaliadau mewn tri gwaith tunplat. Daeth yn Ynad Heddwch dros Forgannwg ac Abertawe, ac yn Uchel Siryf Sir Aberteifi. Roedd ei wreiddiau yn Aberteifi, a chyfeiriwyd ato fel Iago Ceredigion. Ymhen blynyddoedd daeth gwr arall o Geredigion, Tyssul Lewis, yn Arglwydd Faer Abertawe a chynnal noson yn Brooklands i godi arian i Gymdeithas Tŷ Tawe.

Cyfrannodd James Jones £100 at eisteddfod Abertawe yn 1891, sy'n werth tua £15,000 heddiw. Cynhaliodd noson i ddathlu'r eisteddfod yn Brooklands. Canodd Clwydfardd englyn iddo:

Syw ethol wr Brooklands weithion - a roes
I'n wir roesaw calon;
A Iago Ceredigion
Yw Ifor Hael y fro hon.
A'r un oedd clod Watcyn Wyn:
Yn y Brooklands bu oraclau - y beirdd llwm
A bwrdd llawn o'u blaenau;
A llon wên i'w llawenhau,
A Heddwch drwy'r neuaddau!



Bu farw James Jones yn y Brooklands yn 1899. Daeth yn gartref i'r Parchedig William Talbot Rice tan 1919, ac yn 1922 prynwyd y plas gan Gyngor Abertawe am £6,650.



Yn ystafelloedd y plas mae nifer o luniau gan artistiaid o Gymru, gan gynnwys rhai gan Christopher Williams a Grant Murray, a beintiodd olygreydd o eisteddfod Abertawe 1926.

## TAITH GERDDED PENLLERGAER

**-ROB EVANS**

Mae parc Penllergaer yn lle gwych i gerdded, does gen i ddim cof o faint o weithiau dw i wedi cerdded yno erbyn hyn ond, rhywsut, dw i'n darganfod darnau newydd bron bob tro. Mae'n boblogaidd iawn, er dydw i ddim yn siŵr bod y rhan fwyaf o bobl yn mynd yn ddwfn i'r parc. Y rhaeadr yw'r pot mêl wrth gwrs, dyna le mae'r plant yn cael hwyl.

Pan dach chi wedi gorffen eich taith mae caffi ardderchog yna efo digon o le tu fewn neu du allan. Dw i wedi dweud o'r blaen am ba mor bwysig yw'r parc i'r diwydiant ffotograffau ac ar waliau'r caffi mae nifer o'r ffotograffau cyntaf yn y byd. Lluniau o'r gerddi yn ystod blynyddoedd cyntaf ei fodolaeth mor bell yn ôl â 1850. Meddyliwch! bron 200 mlynedd yn ôl!

Roedd rhywun wedi cael y syniad o 'pin hole camera' (dw i'n defnyddio'r Saesneg achos mae'n swnio'n llawer gwell na 'camera twll pin'). Bocs oedd hwn efo twll bach a math o sgrin ar yr ochr cefn, roedd llun o beth bynnag oedd o flaen y camera i'w weld trwy'r sgrin gan y person tu ôl i'r bocs. Dw i wedi gweld rhai yng Nghaeredin ble mae'r Camera Obscura ac mae'n anodd credu beth dach chi'n gweld. Bysech chi'n feddwl byddai rhywbeth fel hyn yn aros fel tegan i blant ond roedd pobl wedi dechrau meddwl am sut i 'fficsio'r' llun i'r papur.



Llyn Penllergaer

Roedd un o deulu Penllergaer, John Dillwyn Llewellyn, yn un o'r bobl yma ac roedd cystadleuaeth eitha' gryf i ddarganfod y ffordd i wneud hyn, os oedd ffordd o gwbl. Unwaith oedden nhw wedi gwneud hyn roedden nhw'n gallu crwydro o gwmpas yn tynnu lluniau o'r byd fel yr oedd yn y dyddiau yna. Yma yn Abertawe mae gennyn ni'r fraint o allu mynd ychydig o filltiroedd a gweld y lluniau yma ar wal y caffi.


Byddech chi'n synnu pa mor siarp ydyn nhw!

A dyna ddiwedd fy ymdrech fawr i helpu twristiaeth yn Abertawe. Well i mi ddweud wrthoch chi am y daith. Fel o'n i'n dweud dw i wedi bod yna llawer gwaith a dw i dal ddim yn deall beth aeth o'i le. Roedden ni wedi cerdded

i lawr y llwybr sydd yn mynd uwchben y cwm a bodlonwn ein hunain wrth gymryd llwybrau newydd ac yn y pendraw roedden ni wedi cyrraedd y llyn sydd i'w weld ar y dudalen flaen. Arhoson ni yna am sbel i werthfawrogi'r tawelwch ac wedyn mynd ymlaen. Wnaethom ni ddewis y ffordd uchel ar ochr arall i'r cwm ac roeddwn i'n sicr byddai'r llwybr yma yn mynd â ni yn ôl i'r maes parcio a'r caffi.

Ond dyna ni wedi cyrraedd giât oedd yn agor allan i lôn dawel ac mewn llawn hyder cerddon ni ymlaen tan i ni gyrraedd ffordd fwyaf. Wrth edrych i'r dde roedd llawer o arwyddion a goleuadau traffig. Roedden ni'n edrych ar y groesffordd ger Tesco, ffordd Gaerfyrddin ac mae hynny yn bell, beth o'r caffi, o leiaf milltir i ffwrdd! Roedd rhaid cerdded yr holl ffordd yn ôl ond roedd pawb yn llawn hwyl a finnau'n llawn embaras.

Ond mi oedd yn daith dda er hynny!




## NOSON GWIS TŶ TAWE

Ymuna gyda ni yn Nhŷ Tawe ar gyfer ein Noson Gwis misol! 28/10, 7yh

## BYD NATUR MIS MEDI

**-PATRICK SOPER**

Mae yna sawl aelod i'r teulu pisgwydd ac ar y cyfan maen nhw'n frodorol i ran fwyaf o Ewrop, gan gynnwys Prydain.


Y Bisgwydden Gyffredin

Meddylir mai croesryw yw'r 'pisgwydden gyffredin', rhwng pisgwydden mawrddail a phisgwydden bachddail; dyma un o'n coed llydanddail talaf.

Nid yw'r rhywogaeth hon yn cael ei blannu fel arfer mewn lleoedd trefol, beth bynnag, gan yn aml ei fod yn denu pla o lyslau. Mae'r trychfilod trafferthus hyn yn bwydo ar y sudd sy'n cyflenwi'r dail, ac o ganlyniad mae yna hylif gludiog yn diferu ar y palmant islaw.

Golwg gyfarwydd mewn parciau, daethpwyd â llawer ohonyn nhw yma o'r Iseldiroedd yn y 18fed canrif oherwydd eu hymddangosiad addurnol swynol. Tarddle gwerthfawr neithdar yw'r blodau ym misoedd Mehefin a Gorffennaf.Gall y dail dyfu hyd at bedwar modfedd o hyd, yn ddanheddog fel arfer ac yn dod i bigfain.

Mae cragen galed yn gwarchod yr hadau, ond anffrwythlon yw'r rhan fwyaf o'r rhain.

*****

Dywedir y câi darn o gyngaf ei grogi uwchben drysau stabl er mwyn dychryn ysbrydion drwg i ffwrdd.

Planhigyn eilflwydd brodorol yw hwn gyda dail siâp calon fawr a choesau melyn bwytadwy; gallan nhw gael eu berwi mewn cawl neu gael eu bwyta mewn salad. Mae yna sawl amrywiaeth ac maen nhw'n tyfu, yn enwedig ar, dir diffaith neu ar ochrau ffyrdd.


Y Cyngaf

Gellir cael hyd iddynt ledled Prydain heblaw am Ucheldiroedd yr Alban. Mae cyngaf yn blodeuo rhwng Gorffennaf a Medi, gyda'r hadau yn cael eu dosbarthu gan anifeiliaid neu bobl sy'n mynd heibio - mae gan godennau hadau llawer o fachau bychan sy'n ymlynu eu hunain â'n dillad.

*****

Roeddwn i wastad yn meddwl roedd dim ond dyrnaid o fathau o wlithod, ac roedden nhw i gyd, heb eithriad, yn elyn i arddwyr.


Y Wlithen Fannog

Nid yw hynny'n wir. Yn y DU mae gynnon ni rhwng tri deg a phedwar deg math o'r creaduriaid hyn ac nid yw bob un ohonyn nhw yn achosi difrod i'n planhigion. Heb os rydyn ni i gyd yn gyfarwydd â'r prif droseddwyr gan ein bod yn eu dal yn y weithred.

Ond, at ei gilydd, diniwed yn llwyr yw'r wlithen fannog. Gan mwyaf, maen nhw'n bwydo ar ffwng a llystyfiant wedi'i marw, a hefyd maen nhw'n bwyta gwlithod eraill. Maen nhw o fudd i'r ardd, felly, ac yn gwella eu hecosystem.

Rhywogaeth frodorol ydyn nhw gyda disgwyliad oes hyd at dair blynedd. Ac, fel llawer o foldroedogion, maen nhw'n ddeurywiol - y rhai 'benywaidd' a'r 'gwrywaidd' hefyd yn gallu dodwy wyau sy'n ffrwythlon.

## NEWYDDION YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

### SIOE THEATR NA NOG

**-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG**

Cafodd criw o ddisgyblion Bl.9 Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe gyfle i fynd i Theatr Dylan Thomas i weld perfformiad gan Theatr Na-Nog. Roedd y perfformiad 'Dal y Gwynt' yn trafod pob math o themâu cyfoes a braf oedd cael perfformiad trwy gyfrwng y Gymraeg ar ein stepen drws.



## TAITH DISGYBLION BRYN TAWE I WLAD BELG

**-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED**

Ym mis Gorffennaf aeth Adran y Gymraeg a'r Adran Gerdd ar daith i Wlad Belg am bedwar diwrnod. Roedden ni'n gadael yn gynnar ar fore Gwener yr 11eg yn yr heulwen gan gyrraedd y gwesty yng nghanol tref Ypres erbyn amser te. Y noson honno cawsom ni gyfle i gael taith hamddenol o amgylch y dref a chydig o awyr iach.

Taith o ardal Paschendaele oedd y weithgaredd ar gyfer y bore Sadwrn. Cawsom ein tywys i Fynwent Essex Farm a gweld y gofeb i'r bardd John McCrae ac olion y gorsafoedd triniaethau. Diolch i Tilly o fl8 am ddarllen cerdd enwog John McCrae, In Flanders' Fields, i ni. Heb os fodd bynag, uchafbwynt y bore Mawrth oedd ymweld â Mynwent Artillery Wood a chynnal seremoni ger bedd Hedd Wyn. Diolch i'r disgyblion a ddarllenodd wrth y bedd ac i Lathika am gyfeilio er mwyn i ni ganu'r anthem. Oddi yno aethon ni ymlaen i fynwent Almaenig Langemark a mynwent enfawr Tyne Cot. Yng nghanol y gwres llethol y penwythnos hwnnw roedd pawb yn falch iawn o gael seibiant a hufen ia bendigedig ar y sgwâr yn Ypres!

Y prynhawn hwnnw cawsom gyfle i ymweld ag amgueddfa In Flanders' Field, amgueddfa rhyngweithiol arbennig iawn. Yna daeth y cyfle i'r côr a'r offerynwyr berfformio ar y sgwâr yn Ypres. Tynnon ni dipyn o dyrfa a daeth un gŵr am sgwrs a oedd â chysylltiad â Mr Williams! Ymlaen wedyn i siop siocled Leonidas ac roedd pawb wrth eu boddau yn llenwi eu bagiau a gwario eu ewros! Neidiodd pawb yn ôl ar y bws er mwyn gwneud un ymweliad arall. Roedd Callie Davies o fl13 wedi ymchwilio a darganfod bod bedd ei hen, hen ewythr, Thomas Cyril Roberts o Lanbedr Pont Steffan ym mynwent Dozingheim ger Ypres. Diolch i'n gyrrwr arbennig, Gareth, fe lwyddon ni ddod o hyd i'r fynwent a chafodd Callie gyfle i gael munud tawel ger y bedd. Roedd hwn yn brofiad dirdynnol iawn i ni i gyd, ond yn arbennig felly i Callie. Wedi swper blasus iawn yn y gwesty, gyda'r nos aethon ni yn ôl i ganol Ypres er mwyn gwylio seremoni y Last Post a mwynhau ychydig o amser rhydd yn y dref hardd.

Ddydd Sul cafwyd taith o amgylch ardal y Somme, a chawsom ein tywys yn gyntaf i gofeb Newfoundland Park, safle trawiadol lle mae modd gweld olion y ffosydd a'r gofeb drawiadol I'r milwyr. Ymlaen wedyn i gofeb y



milwyr Cymreig ger Coedwig Mametz, ac yna ymlaen i gofeb enfawr Thiepval, a Chrater Lochnagar. Yna ar ôl gollwng ein tywysydd yn ôl yn Albert aethom ymlaen i gofeb drawiadol Vimy Ridge, cofeb i holl filwyr Canada a fu farw.

Yn ôl â ni wedyn i westy Poppies2 er mwyn paratoi ar gyfer y perfformiad gyda'r nos lle byddai'r côr, dan arweiniad Mr Alun Williams a Miss Nerys Williams, a'r offerynwyr dan arweiniad Mrs Claire Holt, yn perfformio yn seremoni'r Last Post. Wedi ein swper anelon ni yn ôl am Ypres lle roedd y dyrfa eisoes yn dechrau ymgasglu. Pan ddaeth hi'n 8 o'r gloch tawelodd pawb a dechreuodd y seremoni. Roedd y côr wedi perfformio dau ddarn gyda Lewis Morgan o fl13 yn canu unawd. Profiad a hanner i'r disgyblion a'r staff, ac roedd nifer fawr ohonom yn emosiynol iawn. Ewch draw i'n cyfrif instagram er mwyn cael gweld fideo o'r perfformiad.

Ddydd Llun ar ôl pacio popeth a chyn anelu'n ôl am Calais fe gawson ni fore yn Brugge a thaith ar y gamlas – ac wrth gwrs cyfle am waffl neu hufen ia! Roedd hi'n fore hyfryd a phawb wedi mwynhau crwydro.

Taith fythgofiadwy i bawb ac roedden ni fel staff wedi mwynhau'n fawr yn nghwmni criw arbennig iawn o ddisgyblion. Pob dymuniad da i'r disgyblion a oedd ar eu taith olaf gyda Bryn Tawe. Ymlaen â ni i daith arall i Ypres yn haf 2027!



## NEWYDDION YSGOL GYFUN GŴYR

### "GWEITHREDWCH NAWR AM Y DYFODOL" - YMWELIAD BLWYDDYN 10-12 I'R SENEDD!

Heddiw, cafodd disgyblion o Flwyddyn 10–12 sy'n angerddol am yr amgylchedd gyfle unigryw i gymryd rhan mewn lobi torfol yn y Senedd.

Roedden nhw'n trafod materion hanfodol – tegwch, cyllid, ac adfer natur – nid yn unig gydag elusennau amrywiol ond hefyd gyda'r Gweinidog dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans (AS Gŵyr) a'r Aelod Rhanbarthol, Sioned Williams.

Roedd y sesiynau hyn yn hynod ddiddorol ac yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Diolch i Climate Cymru am y gwahoddiad.





# HYDREF 2025

menter iaith abertawe

## MEDI - SEPTEMBER

**25.9** = DADLEOLI + DROS DRO + DAGRAU TÂN + ARTEMIS **(THE BUNKHOUSE)**

## HYDREF - OCTOBER

**2.10** = CASI WYN + CYN CWSG **(MISSION GALLERY)**
**4.10** = MALI HÂF **(THE BUNKHOUSE)**
**9.10** = DNA + BETHAN NIA **(ELYSIUM)**
**10.10-11.10** = GŴYL DROS Y BONT **(AMRYWIOL)**
**18.10** = EVE GOODMAN & SERA + CHWAER **(TŶ TAWE)**

## TACHWEDD - NOVEMBER

**6.11** = CANEUON PENRHYN GŴYR AC ABERTAWE: ANGHARAD JENKINS & HUW WARREN **(ALL SAINTS, MWMBWLS)**
**7.11** = ANI GLASS + MOVEMENT81 + OSGLED **(TŶ TAWE)**
**8.11** = GŴYL NAWR **(TŶ TAWE)**
**21.11** = LOWRI EVANS + MELDA LOIS **(TŶ TAWE)**
**27.11-29.11** = GŴYL FRINGE ABERTAWE **(AMRYWIOL)**

## RHAGFYR - DECEMBER

**6.12** = ALYS A'R TRI GŴR NOETH + CONTRA + IWTOPIA + PENBLETH **(TŶ TAWE)**

THE BUNKHOUSE BAR & MUSIC VENUE · Mission Gallery · ELYSIUM GALLERY / VENUE / BAR · TŶ TAWE · SWANSEA MUSIC HUB